



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER
Ministry of
JUSTICE



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Y fframwaith remánd newydd i blant: Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 21 Medi 2012

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 16 Tachwedd 2012

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

At: Awdurdodau Lleol
Timau Troseddwyr Ifanc
Rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn materion cyfiawnder ieuencid

Yn parhau: O 21 Medi 2012 tan 16 Tachwedd 2012

Ymholiadau at: Louisa Carrad
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 07775 816 972
E-bost: Louisa.Carrad@justice.gsi.gov.uk

Sut mae ymateb: Anfonwch eich ymateb erbyn 16 Tachwedd 2012 at:
Tîm Prosiect Remánd y BCI
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Post point 13.54
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
E-bost: remandsproject@yjb.gsi.gov.uk

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
Cyflwyniad	4
Llety cadw ieuenctid - dyrannu ariannu beichiau newydd	8
Llety cadw ieuenctid - adennill costau	13
Digwyddiadau annisgwyl	16
Teithiau remánd i lety cadw ieuenctid ac yn ôl	19
Plant sy'n derbyn gofal	21
Dyrannu ariannu	23
Holiadur	24
Amdanoch chi	26
Manylion cysylltu/Sut mae ymateb	27

Atodiadau

- A: Y fframwaith remánd ar hyn o bryd
- B: Y fframwaith remánd newydd
- C: Sgrinio cychwynnol asesiad effaith ar Gydraddoldeb
- D: Eglurhad ar fodlu'r fframwaith remánd newydd
- E: Cyfanswm defnydd nosweithiau gwely remánd yn ôl awdurdod lleol
- F: Dyraniad ariannu cyfan yn ôl awdurdod lleol

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

Crynodeb gweithredol

Mae darpariaethau yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli cyllidebau remánd diogel o dan 18 oed i awdurdodau lleol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn ar hyn o bryd yn cael eu dal gan y canol – gan y Bwrdd Cyflawnder Ieuencid, corff cyhoeddus anadrannol o dan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Y sefyllfa ar hyn o bryd, felly, yw bod llywodraeth ganol yn ariannu mwyafrif mawr y gost pan fydd plant ar remánd diogel. Os remandir plentyn yn y gymuned (er enghraifft, mewn gofal maeth remánd), yr awdurdod lleol sy'n gorfod ariannu'r gost. Credwn mai ychydig o gymhelliad ariannol sydd ar hyn o bryd i'r awdurdod lleol sicrhau bod dewisiadau eraill yn y gymuned ar gael fel opsiwn i'r llys.

Datganolir y cyfrifoldeb ariannol dros remandio ieuencid diogel o fis Ebrill 2013. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn parhau i gomisiynu lleoedd cadw, ac yn penderfynu lle i osod y rhai mae'r llys yn eu remandio'n ddiogel, ond bydd yn anfonebu'r awdurdodau lleol am y gost.

Yn unol â'r athrawiaeth beichiau newydd, byddwn yn trosglwyddo ariannu i alluogi i awdurdodau lleol gwrdd â'u cyfrifoldeb newydd am gostau remandiau diogel. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cyflwyno'r opsiwn sydd orau gan y Gweinidog Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer dyrannu'r ariannu hwn a sut rydym yn cynnig adennill y costau. Cyflwynir cynigion hefyd ynghylch digwyddiadau annisgwyl a'r gost o deithiau remánd i lety diogel ac yn ôl.

Yn ychwanegol, o ganlyniad i'r Ddeddf LASPO, pan remandir plant yn ddiogel byddant hefyd yn mynd yn blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn hefyd yn faich newydd ar yr awdurdodau lleol ac mae'r papur yn cyflwyno cynigion ar gyfer dyrannu'r ariannu hwnnw.

Cyflwyniad

Gosod y cyd-destun

1. Gall plant¹ sydd wedi'u cyhuddo o'r troseddau mwyaf difrifol yn aml fod angen eu cadw ar remánd yn ddiogel wrth iddynt ddisgwyl prawf a chael eu dedfrydu. Fodd bynnag, mae gormod o blant nad yw eu troseddau honedig yn rhai difrifol ac nad yw eu hymddygiad yn berygl i'r cyhoedd yn cael eu remandio'n ddiogel. Mae angen ymagwedd well at remánd ar gyfer y plant hynny: un sy'n cadw goruchwyllo, cefnogaeth, addysg a hyfforddiant dan arweiniad y gymuned.
2. Er bod cyfanswm nifer y plant yn y ddalfa wedi syrthio 33 y cant rhwng 2007/8 a 2011/12, dim ond o 24 y cant y mae'r nifer ar remánd mewn lleoedd diogel wedi syrthio. Mae 61 y cant o'r plant sydd ar remánd diogel yn cael eu rhyddhau neu heb fynd yn eu blaenau i gael dedfryd o garchar. Yn aml nid yw'r remandio diogel ddim ond am gyfnodau cymharol fyr o amser, heb fawr ddim cyfle i wneud newid cadarnhaol i fywydau'r plant ar remánd. Mewn llawer o achosion gall y perygl o du'r plentyn, boed iddo ei hun neu i eraill, gael ei reoli yn y gymuned, a dylid gwneud hynny. Dyna lle gellir cymryd camau i fynd i'r afael ag ymddygiad y plentyn, a gweithio gyda'r teulu ar yr un pryd.
3. Drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud diwygiadau sylweddol ar y fframwaith remánd ieuenctid. Gyda bydd y Ddeddf ar waith, caiff rhai 17 oed eu trin fel plant yn hytrach nag oedolion. Bydd hyn yn cwrdd ag ymrwymiad y llywodraeth a osodwyd yn y Papur Gwyrdd, *Torri'r Cylch*, ac yn rhoi pen ar y feiriadaeth nad yw'r broses remánd bresennol yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gweler Atodiad A am y manylion ar sut mae'r fframwaith remánd yn gweithio ar hyn o bryd.
4. Mae'r Ddeddf LASPO hefyd yn ceisio lleihau remánd diogel diangen ar blant mewn dwy ffordd.
 - Yn gyntaf, mae'n rhaid bod gan rywun rhwng 12 a 17 oed fod â rhagolygon gwirioneddol o gael dedfryd o garchar o'u cael yn euog cyn y gellir eu remandio i lety cadw ieuenctid², oni bai eu bod wedi'u cyhuddo o drosedd dreisgar neu rywiol neu un lle câi oedolyn ddedfryd o garchar o 14 mlynedd neu fwy – yn yr achos hwnnw nid oes rhaid cwrdd â'r prawf "rhagolygon gwirioneddol" – (gweler Atodiad B am fanylion llawnach am y fframwaith remánd newydd); ac

¹ Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn diffinio yr holl blant a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed fel "plant" at ddibenion remánd. Rydym felly wedi defnyddio'r diffiniad hwn yn y papur ymgynghori drwyddo.

² Mae remánd i lety cadw ieuenctid yn remánd diogel a gall fod i sefydliad troseddwyr ifanc o dan 18 oed, cartref plant diogel neu ganolfan hyfforddi diogel.

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

- Yn ail, mae'r awdurdodau lleol yn cael cyfrifoldeb ariannol mwy dros remandio diogel.
5. O dan y cynigion yn y papur ymgynghori hwn rydym yn cyflwyno sut bydd awdurdodau lleol yn cael cyfrifoldeb ariannol mwy er mwyn eu cymell i helpu i leihau remandio diangen i lety cadw ieuenctid a gwella canlyniadau i blant. Bydd y Gweinidog Cyfiawnder yn trosglwyddo ariannu i'r awdurdodau lleol a ddefnyddid fel arfer i ddarparu remandio i lety cadw ieuenctid. Bydd hyn yn galluogi i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn dewisiadau eraill yn lle remandio i lety cadw ieuenctid. Ni fydd yr ariannu hwn wedi ei glustnodi'n benodol. Bydd yn agored i'r awdurdodau lleol benderfynu sut mae defnyddio'r arian hwn orau. Gallai, er enghraifft, gynnwys sefydlu trefniadau consortiwm neu gydgronni cyllidebau.
 6. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi cynorthwyo i arwain gwaith gyda rhai timau troseddwr ifanc gan ddefnyddio canllawiau arfer gorau. Mae hyn wedi nodi y gall dewisiadau eraill yn hytrach na remánd, fel pecynnau cymorth mechnïaeth dwys, (wedi anelu at ymdrin â'r peryglon ac anghenion y plentyn yn y gymuned) gostio llai yn sylweddol na remandio i lety cadw ieuenctid. Mae'r timau troseddwr ifanc hyn wedi cofnodi, ar gyfartaledd, gostyngiad o 18 y cant yn y defnydd ar remánd diogel rhwng 2009/10 a 2010/11.
 7. Os gall awdurdodau lleol sicrhau gostyngiad yn y nifer o remandiau i lety cadw ieuenctid, byddant yn gallu buddsoddi'r ariannu a ddarperir ar leihau troseddu a chynorthwyo gydag adsefydlu troseddwr. Bydd gostwng y nifer o remandiau i lety cadw ieuenctid hefyd o les i'r plentyn drwy gadw'u cysylltiadau â'r gymuned a galluogi i fynychu ysgol neu goleg allu parhau.

Yr ymarferiad ymgynghori

8. Mae'r papur hwn yn cyflwyno ar gyfer ymgynghori arnynt:
 - Cynlluniau i ddyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â remandio i lety cadw ieuenctid;
 - Cynlluniau ar gyfer adfer costau remandiau i lety cadw ieuenctid gan awdurdodau yng Nghymru a Lloegr;
 - Cynigion mewn perthynas ag effaith bosibl "digwyddiadau annisgwyl" ar gyllidebau ar gyfer remandiau i lety cadw ieuenctid;
 - Cynigion mewn perthynas â chwrdd â chostau hebrwng plant ar remánd i lety cadw ieuenctid ac yn ôl oddi yno; a
 - Chynlluniau ar gyfer dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas ag ymestyn "plant sy'n derbyn gofal" i'r holl blant a remandir i lety cadw ieuenctid.
9. Mae'r papur ymgynghori a'r trosglwyddiadau ariannu yn ymdrin â'r blynyddoedd ariannol 2013/14 a 2014/15. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl dosbarthu'r ariannu ar yr un sail ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae hyn i'w adolygu. Gall y lefelau ariannu a'r trefniadau dosbarthu

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

hwythau gael eu hadolygu fel bo angen ar gyfer cyfnodau Adolygu Gwario yn y dyfodol.

10. Anelir yr ymgynghori at awdurdodau lleol (prif weithredwyr, swyddogion cyllid a chyfarwyddwyr gwasanaethau plant), timau troseddwr ifanc a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn materion cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.
11. Mae papur ymgynghori Cymraeg ar gael. Byddwch gystal ag anfon e-bost at dîm y Prosiect remánd i gael copi ar remandsproject@yjb.gsi.gov.uk.
12. Bydd croeso mawr i sylwadau ar yr Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb sydd ynghlwm yn Atodiad C.

Materion ehangach

13. Fel gyda'r fframwaith remánd flaenorol, caiff gosod plant mewn llety cadw ieuenctid ei gydlynu'n ganolog gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a fydd yn gwneud y penderfyniad lleoli mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol dynodedig. Datblygir polisi lleoli wedi ei ddiweddarau i roi ystyriaeth i'r fframwaith remánd newydd.
14. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn gyfrifol am gomisiynu llety cadw ieuenctid, er y bydd awdurdodau lleol yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn y broses hon.

Beth yw llety cadw ieuenctid?

15. O dan y fframwaith remánd newydd yn Neddf LASPO 2012 bydd tri math o lety cadw ieuenctid a fydd yn dal plant ar remánd ac wedi'u dedfrydu rhwng 12 a 17 oed. Gweler y tabl isod am fwy o wybodaeth.

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

	Cartref Plant Diogel	Canolfan Hyfforddi Diogel	Sefydliad Troseddwy'r Ifanc O Dan 18 Oed
Darperir gan	Awdurdodau lleol	Darparwyr masnachol.	Gwasanaeth Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol / Darparwyr masnachol.
Polisi ar gymhwyster	Rhai o dan 15 oed. Asesir rhai 15 oed a hŷn fel rhai agored i niwed.	Rhai 14 a 15 oed a phlant hŷn agored i niwed.	15 i 17 oed.
Cyfanswm y nosweithiau gwely a ddefnyddiwyd yn 2011/2012 ¹	11,748	22,628	149,200
Cyfran y nosweithiau gwely a ddefnyddiwyd yn 2011/2012	6.4%	12.3%	81.3%

¹ Cymerir y data ar nosweithiau gwely o System Tŷ Clirio Llety Diogel (SACHS) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae'r data yn gallu cynnwys camgymeriadau posibl drwy fewnbynnu a phrosesu data a gall newid dros amser.

Cyfrifir nosweithiau gwely drwy edrych ar faint o amser mae rhywun ifanc yn ei dreulio yn y ddalfa yn ystod cyfnod yn y ddalfa. Mae'r cyfrifo yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng y dyddiad y dechreuodd y cyfnod, a phryd y daeth i ben. Ychwanegir noswaith ychwanegol at ddiwedd pob cyfnod i adlewyrchu'r ffaith fod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau yn y stad ddiogel ar y diwrnod y'u rhyddheir. Gwneir hyn i greu adlewyrchiad cywirach ar y costau yn y system. Er enghraifft: os bydd plentyn yn dechrau yn y ddalfa ar 1 Mawrth ac yn gadael ar 15 Ebrill yna mae'r nosweithiau gwely a ddefnyddir yn 46. Gwneir hyn o 31 diwrnod ym Mawrth, 14 yn Ebrill a'r un a ychwanegir ar gyfer y diwrnod maent yn gadael.

Llety cadw ieuenctid – dyrannu ariannu beichiau newydd

Crynodeb

16. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd yn disgwyl darparu £21.9 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol 2013/14 a 2014/15 tuag at y gost o remandiau i sefydliadau troseddwr ifanc o dan 18 oed. Ar hyn o bryd disgwyl iwn ddefnyddio'r un data i hysbysu'r dosbarthu ar draws y ddwy flwyddyn. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar adolygiad ac yn dibynnu ar y lefelau o ostyngiadau mewn remánd diogel ac unrhyw ddatgomisiynu oherwydd hynny yn y stad ddiogel a ddigwydd dros y cyfnod hwn. Gallai'r ddwy ffactor hyn newid maint y pot cyfan ar gyfer dosbarthu yn yr ail flwyddyn.
17. Rydym yn cynnig dosbarthu'r ariannu i awdurdodau lleol unigol ar sail y defnydd nosweithiau gwely remánd hanesyddol i blant a remandiwyd mewn sefydliadau troseddwr ifanc o dan 18 oed.
18. Dylai awdurdodau lleol nodi mai'r dyddiad³ dros dro ar gyfer gweithredu Deddf 2012 yw 3 Rhagfyr 2012. Fodd bynnag, caiff trosglwyddo'r ariannu a'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer adennill costau (y gosodir y manylion amdanynt yn yr adran nesaf) sydd a wnelont â llety cadw ieuenctid eu rhoi ar waith o'r flwyddyn ariannol nesaf (h.y. o 1 Ebrill 2013). Ar gyfer y cyfnod o 3 Rhagfyr 2012 at ddiwedd Mawrth 2013 cyfrifir costau llety cadw ieuenctid a'u codi ar awdurdodau lleol ar yr un sail ag ar hyn o bryd.

Cefndir

19. Mae 61 y cant o'r plant a gedwir ar remánd yn ddiogel ar hyn o bryd yn cael eu rhyddhau neu heb fynd yn eu blaenau i gael dedfryd o garchar. Dengys y ffigyrau hefyd fod plant wedi'u remandio'n ddiogel yn ffurfio 23 y cant o blant yn y stad ddiogel yn 2011/12. Cymhara hyn â llai na 15 y cant o'r boblogaeth oedolion mewn carchar sydd ar remánd.
20. Bydd y fframwaith remánd newydd o gymorth i leihau'r defnydd diangen ar remandiau diogel. Amcangyfrifwn y bydd yn lleihau remandiau diogel o tua 15 y cant (gweler Atodiad D am fwy o fanylion). Ond gall awdurdodau lleol hefyd gymryd camau i dorri remandiau diangen, a byddant yn cael mwy o gymhelliad i wneud hynny. Er enghraifft, gall awdurdodau lleol (yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol fel yr heddlu, y llysoedd a gwasanaethau plant) ddefnyddio'r canllawiau arfer gorau ar remánd i werthuso a gwella ymarfer gweithredol a strategol. Gellir defnyddio unrhyw enillion ariannol i gefnogi'r twf ar ddewisiadau cymunedau cadarn eraill yn lle'r ddalfa.
21. Fel y'i gosodwyd yn y cyflwyniad i'r papur hwn, mae hyn ynghylch rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb i asiantaethau lleol wrth ddarparu gwasanaethau. Yn y tymor hir anelwn at annog awdurdodau lleol i symud adnoddau at waith ymyrryd a rhwystro cynnar.

³ Yn amodol ar yr amserlen seneddol.

22. Mae ystod o ddewisiadau eraill mwy cost-effeithiol i remandio i lety cadw ieuenctid ar gael. Er enghraifft:
- Lle bydd llys yn gorchymyn remánd i lety awdurdod lleol, lleoliad gan yr awdurdod lleol mewn gofal maeth remánd arbenigol. Golyga hyn y gall plant gadw cysylltiad gyda'u teuluoedd a'u cymunedau a pharhau â'u haddysg.
 - Pecynnau cymorth mechnïaeth dwys wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag anghenion y plentyn, er enghraifft, mewn perthynas â chamddefnydd cyffuriau neu alcohol.
23. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu dyraniad ariannu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bydd er lles iddynt sicrhau bod trefniadau amgen ar gael a bod y llysoedd yn ymwybodol o'r dewisiadau eraill hyn ar yr adeg pan wneir y penderfyniad remánd. Pan osgoir remandio posibl i lety cadw ieuenctid, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r gwahaniaeth i ddatblygu eu gwasanaethau. Er nad yw'r ariannu hwn wedi ei glustnodi'n unswydd, rhagwelir y dylid ei wario ar weithgareddau sy'n gwella canlyniadau i bobl ifanc e.e. drwy leihau troseddau.
24. Dylai awdurdodau lleol a thimau troseddwr ifanc ymgymryd ag ystod o weithgareddau i fynd i'r afael â lefelau remánd. Gallent, er enghraifft, gasglu a dadansoddi data ar y rhesymau pan wrthodir mechnïaeth; neilltuo adnoddau i ddechrau gwaith ar asesiadau a pharatoi pecynnau mechnïaeth yn gynt; datblygu cyfathrebu gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a chyfreithwyr yr amddiffyn sy'n cynrychioli plant yn rheolaidd yn y llys ieuenctid i egluro'r dewisiadau eraill sydd yn lle llety cadw ieuenctid; cyflwyno remánd i lety awdurdod lleol i'r llys ar y cyfle cynharaf; a chanolbwyntio ar lysoedd bore Sadwrn.
25. Mae lle i lawer o'r gweithgareddau hyn gael eu cronni ynghyd o fewn trefniadau consortiwm.

Sefydliadau troseddwr ifanc o dan 18 oed

26. Ar hyn o bryd cyfrifoldeb y Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid yw cwrdd â chostau plant ar remánd mewn sefydliadau troseddwr ifanc o dan 18 oed. O dan y fframwaith remánd newydd, awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am gwrdd â chostau yr holl remandio i lety cadw ieuenctid. Mae hwn yn faich newydd ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder/Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid yn disgwyl darparu £21.9 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol 2013/4 a 2014/15.

27. Mae'r ffigyrau hyn wedi eu cyfrifo fel a ganlyn:

	Sefydliadau troseddwr ifanc
Cost noswaith wely ar gyfartaledd yn 2012/13	£173
Cyfanswm nifer y nosweithiau gwely yn 2011/12	149,200
Cyfanswm i'w drosglwyddo i awdurdodau lleol o roi ystyriaeth i'r 15% o ostyngiad a ragwelir yn nifer y remandiau oherwydd cyflwyno'r fframwaith newydd, gaethach.	£21.9m

Cartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel

28. O dan y ddeddfwriaeth remánd bresennol, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gwrdd â chostau gosod plant a remandir i lety diogel awdurdod lleol pan fydd hyn wedi ei orchymyn gan y llys (h.y. remandiau i gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel). Yn dilyn cytundeb â'r Swyddfa Gartref yn 1999, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi rhoi cymorth ariannol i awdurdodau lleol yn hyn o beth, er nad oes dim gofyniad statudol iddo wneud hynny.
29. Daw'r cytundeb hwn i ben 31 Mawrth 2013. O 1 Ebrill 2013 bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am gostau remandiau i gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel. Mae hyn yn unol â'r bwriad polisi a gyflwynwyd yn y Papur Gwyrdd "Torri'r Cylch":

“Wrth ddisgwyl am gyflwyno gorchymyn remandio ieuenctid unigol, cynigiwn ddefnyddio'r fframwaith gyfreithiol bresennol i wneud awdurdodau lleol yn raddol fwy cyfrifol am gost lawn remánd diogel a orchymynnir gan lys, ond gan gadw'r swyddogaeth ganolog o osod plant ar remánd diogel yn y ddalfa. Mae hyn yn ychwanegu at y symud ehangach sydd gennym at dalu yn ôl canlyniadau a rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb i asiantaethau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn.”

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

30. Amcangyfrifwn y bydd costau remandiau i gartrefi plant diogel yn:

	Cartrefi plant diogel	Canolfannau hyfforddi diogel
Cyfanswm nifer nosweithiau gwely yn 2011/12	11,748	22,628
Cyfanswm costau remandiau yn 2011/12 (yn cynnwys TAW ar ganolfannau hyfforddi diogel)	£6.8m	£17.2m
Swm a dalwyd gan awdurdodau lleol yn 2011/12 (1/3 o'r cyfanswm)	£2.3m	£5.7m

Cost noswaith wely ar gyfartaledd yn 2012/13 (nad yw'n cynnwys TAW ar ganolfannau hyfforddi diogel)	£577	£607
Cyfanswm y gost mewn blynyddoedd i ddod o ystyried gostyngiad a ragwelir o 15% yn nifer y remandiau oherwydd cyflwyno'r fframwaith newydd, gaethach a thynnu TAW o gostau canolfannau hyfforddi diogel.	£5.8m	£11.7m

31. Ni fydd dim trosglwyddo am gostau'r remandiau i gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel am nad yw hyn yn faich newydd.

Dosbarthu'r ariannu

32. Yr opsiwn sydd orau gennym yw bod ariannu ar gyfer remandio i sefydliadau troseddwyr ifanc o dan 18 oed yn cael ei ddsbarthu yn ôl defnydd hanesyddol gan awdurdodau lleol unigol wedi ei gyfartaleddu dros y tair blynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael iddynt ar hyn o bryd (h.y. ar gyfartaledd dros y cyfnod 2009/10 i 2011/12). Ar hyn o bryd disgwylwn ddefnyddio'r un data i hysbysu dosbarthu ar gyfer 2013/14 a 2014/15.

33. Credwn fod yr opsiwn hwn yn:

- cynnig mecanwaith syml a hawdd ei ddeall ar gyfer dosbarthu ariannu; ac
- yn dryloyw a hawdd ei amddiffyn wrth gymharu dyraniadau cyllidebau â'r costau tebygol i awdurdodau lleol unigol.

34. Credwn hefyd mai ychydig o effaith negyddol sydd ar y cymhelliad i leihau remandiau diangen. Mae'r prif gymhelliad yn cael ei greu drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb ariannol. Ar ben hynny:

- mae cael y cyfartaledd dros dair blynedd o gymorth i fynd i'r afael â phryderon ynghylch anwadalrwydd yn y defnydd ar nosweithiau gwely

remánd; er na fyddai unrhyw ddull ar gyfer dosbarthu ariannu yn gallu rhoi cyfrif llawn am anwadalrwydd.

- er gellid gweld hyn fel gwobrwyo perfformiad gwael blaenorol, mae cyfartaleddu dros y tair blynedd diwethaf hefyd yn helpu i leihau'r effaith ar yr ardaloedd hynny sydd eisoes wedi lleihau galwadau diangen yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- mae'r opsiwn yn rhoi ystyriaeth i ffactorau fel amrywiadau lleol yn ymddygiad y dedfrydwyr efallai na fyddent yn cael eu nodi gan ymagweddau eraill.

35. Rydym yn ymwybodol fod pryderon am anghysondebau yn y data. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid wrthi'n cymryd camau brys gyda thimau troseddwr ifanc i gysoni anghysondebau data sydd wedi eu nodi. Cwblheir y gwaith hwn erbyn mis Tachwedd 2012. Mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn i gysoni anghysondebau yn cael peth effaith ar y gyfran o'r ariannu y bydd awdurdodau lleol unigol yn ei chael.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai ariannu ar gyfer remandio i sefydliadau troseddwr ifanc o dan 18 oed gael ei ddosbarthu ar sail defnydd hanesyddol ar y math hwn o lety i rai 15-17 oed wedi ei gyfartaleddu dros y tair blynedd mwyaf diweddar y mae data ar gael iddynt?

Cwestiwn 2: A ydych yn meddwl y dylid defnyddio fformiwla wahanol? Os ydych sut ddylai'r fformiwla honno edrych?

Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynnig ynghylch costau remandiau i gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel?

Llety cadw ieuenctid – adfer y gost

Crynodeb

36. Ble mae'n angenrheidiol i gadw plentyn mewn llety cadw ieuenctid, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnig y dylai cost y nosweithiau gwely remánd gael ei adfer oddi wrth yr awdurdod lleol perthnasol ar sail y "prisiau sector" priodol.

"Prisiau sector"

37. Drwy ddefnyddio "prisiau sector" byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adfer y gost gyfartalog cost wedi'i seilio ar y math o sefydliad ble mae'r plentyn ar remánd yn cael ei gadw e.e. cyfartaledd ar draws yr holl sefydliadau troseddwr Ifanc dan 18 oed.

38. Fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd ystyried a ddylid adfer y costau wedi'i seilio ar "brisiau gwirioneddol". Byddai hyn yn golygu fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adfer costau y sefydliadau penodol ble y cedwir y plentyn ar remánd (mae costau'n amrywio rhwng gwahanol sefydliadau yn yr un sector am fod contractau wedi'u gosod ar wahanol adegau a gyda gwahanol anghenion cyffredinol. Mae costau mewn rhai sefydliadau hefyd yn amrywio yn dibynnu ar raddfeydd y cyfraddau llenwi).

39. Wrth ystyried sut i adfer costau remánd llety cadw ieuenctid ar sail y "prisiau sector", fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gymryd i ystyriaeth y problemau dilynol:

- Mae mwy o ansicrwydd i awdurdodau lleol ynghlwm â "prisiau gwirioneddol" (am y gallai costau amrywio gyda graddfeydd y cyfraddau llenwi etc) na gyda'r "prisiau sector" a gallai hyn wneud cynllunio ariannol yn fwy anodd i'r awdurdodau lleol.
- Dylai "prisiau sector" sicrhau fod yr un tâl yn cael ei godi ar holl ddefnyddwyr categori diffiniedig gwasanaeth (h.y. i holl ddefnyddwyr, er enghraifft, canolfannau hyfforddi diogel).
- Gall baich gweinyddol cyfrifo "prisiau gwirioneddol" fod yn arwyddocaol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Er enghraifft, mae cost pob lle yn amrywio yn dibynnu ar gost y cyfraddau llenwi yn y canolfannau hyfforddi diogel. Os yw plentyn ar remánd am ddeg noson, yna gall y gost i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o'r lleoliad yna bob nos fod yn wahanol. Byddai cynnal system adfer cost wedi'i seilio ar "brisiau gwirioneddol" yn bosibl, ond byddai'n gymhleth iawn h.y. byddai cyfrif yn golygu y gost bob dydd fesul gwely fesul sefydliad wedi'i gyfuno â rhyw fath o system godi unigol wedi'i seilio ar y calendr. Yn ychwanegol, fel y crybwyllwyd uchod, bydd y dull hwn yn effeithio'n negyddol ar allu awdurdodau lleol i gynllunio ymlaen llaw, gan na allai costau gael eu mesur ymlaen llaw, neu hyd yn oed yn ystod cyfnod remánd.

- Mae problemau gyda datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu sy'n fasnachol sensitif rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a/neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a darparwyr llety cadw ieuenctid. Gall hyn gyfyngu ar yr wybodaeth ariannol y gellir ei chyflwyno i awdurdodau lleol.

40. Mae gan bob contract beirianwaith ymgodi sy'n gweithredu'n flynyddol. Mae contractau ar draws yr ystadau hefyd yn cael eu hail drafod ar gyfnodau gwahanol. Gwelir amcangyfrif cychwynnol arfaethedig o'r "prisiau sector" a'r elfennau maent yn eu hymgorffori isod.
41. Mae'r tabl isod yn dangos y meysydd allweddol o wasanaeth mae **pob** plentyn a gedwir mewn llety cadw ieuenctid yn ei dderbyn. Mae "x" yn dynodi ble mae'r costau yn cael eu talu yn rhywle arall e.e. telir darpariaeth gofal iechyd mewn cartrefi plant diogel a sefydliadau cyhoeddus troseddwr ifanc dan 18 oed gan yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru ac ni ellir adfer y costau hynny gan yr awdurdodau lleol. Felly, tra fod rhywfaint o wahaniaeth yng nghyfansoddiad cost y gwahanol sefydliadau troseddwr ifanc dan 18 oed, mae "prisiau sector" yn adlewyrchu costau'r gwasanaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y cyllid i'w ddarparu i awdurdodau lleol ac felly yr hyn y gellir ei adfer gan awdurdodau lleol.

	Cartrefi plant diogel	Canolfannau hyfforddi diogel	Sefydliad troseddwr ifanc dan 18 sector gyhoeddus	Sefydliad troseddwr ifanc dan 18 sector breifat
Pris noson gwely sector	£577	£607	£173	
Gwasanaethau gwarchodol	✓	✓	✓	✓
Premiwm noswaith gwely remánd	x	✓	x	x
Addysg	✓	✓	x	✓
Gofal iechyd	x	✓	x	✓
Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i blant	x	x	x	✓
Eiriolaeth	✓	✓	✓	✓
Dyfarniadau annibynnol	x	x	✓	✓
Rheolwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder ¹	x	x	x	✓
Gweithiwr YOT	x	x	x	✓

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

	Cartrefi plant diogel	Canolfannau hyfforddi diogel	Sefydliad troseddwr ifanc dan 18 sector gyhoeddus	Sefydliad troseddwr ifanc dan 18 sector breifat
Cyfraddau busnes ²	✓	×	✓	✓

¹ Mae gan reolwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddyletswydd statudol i oruchwylio cydymffurfio â chytundebau a chydymffurfio â gweithdrefnau rhyddhau.

² Mae cyfraddau busnes yn dreth ar feddiannaeth eiddo annomestig. Mae'r BCI fel comisiynydd y gwasanaethau hyn hefyd yn dwyn y gost o drethi busnes a godir gan awdurdodau lleol.

Cwestiwn 4: Beth yw eich barn am y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adfer costau remánd mewn llety cadw ieuenctid oddi wrth yr awdurdodau lleol drwy ddefnyddio "prisiau sector"?


Digwyddiadau Annisgwyl

Crynodeb

42. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnig sefydlu cyllideb ganolog y gellir cael mynediad ati gan awdurdodau lleol petai "digwyddiad annisgwyl" yn digwydd.

Sail Resymegol

43. Bu gogwydd ar i lawr⁴ yn y defnydd o remánd diogel yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhwng 2007/08 a 2011/12 roedd gostyngiad o 24 y cant yn y boblogaeth o rai dan 18 oed a gedwid yn ddiogel ar remánd. Gweler y graff isod ar gyfer y gogwydd cyffredinol. Gweler hefyd Atodiad E am y cyfan o'r defnydd o nosweithiau gwely remánd gan yr awdurdodau lleol yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cydnabod fod, ac y bydd bob amser, beth amrywiad yn y defnydd o remánd o'r fath ar lefel lleol.



⁴ Er nad yw cadw ar remand i lety cadw ieuenctid wedi disgyn ar yr un gyfradd â dedfrydau o garchar.

44. Disgwyliwn i awdurdodau lleol gwrdd â chostau yr amrywiadau mewn costau oddi fewn i'w cyllidebau eu hunain. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai fod cyllideb a gedwir yn ganolog i gwrdd â chostau remánd mewn llety cadw ieuentid sy'n gysylltiedig â digwyddiadau annisgwyl.
45. Nid oes diffiniad cyffredinol o ddigwyddiad annisgwyl, er y byddai aflonyddwch haf 2011 yn amlwg yn cael ei weld gan lawer fel digwyddiad annisgwyl. Mae menter y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, "Cynllun Braenaru Ail-fuddsoddi Cyfiawnder Ieuentid",⁵ wedi defnyddio diffiniad o ddigwyddiadau annisgwyl gyda nifer o gynlluniau peilot bach. Mae profiad hyd yn hyn yn amlygu'r anawsterau wrth geisio cytuno ar ddiffiniad y mae'r holl dimau troseddwy'r ifanc a rhanddeiliaid yn cytuno sy'n briodol. Mae'n anodd cynnal cronfa fach ganolog wrth gefn ac ar yr un pryd ei defnyddio i ymateb i amrywiaeth eang o anghenion posibl.
46. Dengys y siart uchod godiad byrhoedlog yn unig yn y boblogaeth remánd ac mae'n dal i ddangos gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth remánd yn ystod y flwyddyn yna. Gan roi ar un ochr y broblem a yw'n bosibl i cytuno ar ddiffiniad, barn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yw na ddylai fod yna gyllideb a gedwir yn ganolog.
47. Cred y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid y byddai bodolaeth cyllideb o'r fath yn gostwng y cymhelliant i awdurdodau lleol i gymryd camau i ostwng y nifer o remánd dianghenraid i lety cadw ieuentid. Yn ogystal, gyda phwysau'n parhau ar gyllid llywodraeth nid oes arian newydd ar gael er mwyn sefydlu cyllideb o'r fath. Felly, dim ond drwy gymryd yr haen uchaf o'r cyllid oedd i'w drosglwyddo i awdurdodau lleol y gellid sefydlu cyllideb o'r fath. Byddai llai o gyllid i'w drosglwyddo i awdurdodau lleol a gallai gyfyngu ar botensial awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn dewisiadau eraill i remánd mewn llety cadw ieuentid.
48. **Un dewis sydd ar gael i awdurdodau lleol i ostwng risgiau wrth ymateb i lefelau amrywiol o remánd i lety cadw ieuentid allai fod drwy fabwysiadu model consortiwm.** Gallai trefniadau wedi'u cronni neu gyllidebau ar draws rhanbarthau neu oddi fewn i drefniadau partneriaethau presennol ar gyfer darparu a phrynu dewisiadau eraill helpu awdurdodau lleol i reoli galw sy'n codi a gostwng.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno na ddylai fod cyllideb a gedwir yn ganolog i gwrdd â chost digwyddiadau annisgwyl?

⁵ Mae cynlluniau peilot Braenaru Ail-fuddsoddi Cyfiawnder Ieuentid wedi eu cynnal ers mis Hydref 2011 a byddant yn parhau am ddwy flynedd. Maent yn anelu at rannu ag ardaloedd lleol y risg o bobl ifanc yn cael eu carcharu a'r gwobrwyon ariannol os oes llai o bobl ifanc angen dedfryd o garchar. Darperir grant ail-fuddsoddi ar ben y grant safonol i Dimau Troseddwy'r Ifanc. Mae gan ardaloedd lleol hyblygrwydd yn y ffordd maent yn defnyddio'r arian. Os na chyrrhaeddir y targed a gytunwyd, wedi'i seilio ar ddefnydd yr ardal o garchar, yna mae peth os nad y cyfan o'r grant ail-fuddsoddi yn cael ei adennill.

Y fframwaith remánd newydd i blant

Dyrannu ariannu beichiau newydd i awdurdodau lleol Papur Ymgynghori

Cwestiwn 6: Os y credwch y dylai fod cyllideb a gedwir yn ganolog, faint o gyllid y dylid ei gadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y gyllideb hon? A pha ddiffiniad o ddigwyddiad annisgwyl y dylid ei ddefnyddio?

Teithiau remánd i lety cadw ieuencid ac yn ôl

Crynodeb

49. Mae costau teithiau remánd i ac o gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel ar hyn o bryd yn cael eu talu gan awdurdodau lleol. Bydd contract newydd yn ymdrin â'r teithiau remánd hyn yn dod i rym, gyda dyddiad dros dro wedi'i osod ar gyfer 3 Rhagfyr 2012. Bydd disgwyl, felly i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid adfer £1.3 miliwn ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol 2013/14 a 2014/15 am y teithiau hyn. Cedwir llygad ar y ffigurau hyn.
50. Er fod y trefniadau newydd sydd i ddod i rym ar 3 Rhagfyr 2012 (dyddiad dros dro), ni fydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adfer unrhyw gostau hebrwng yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol (h.y. 2012/13).

Teithiau remánd i ac o sefydliadau troseddwr ifanc dan 18 oed

51. Mae plant sydd ar remánd yn cael eu cymryd i ac o sefydliadau troseddwr ifanc dan 18 oed yn cael eu cludo dan gontractau y Gwasanaeth Hebrwng a Gwarchod Carcharorion a gedwir gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr. Telir costau'r hebrwng hwn ar hyn o bryd a bydd yn parhau i gael ei dalu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

Teithiau remánd i ac o gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel

52. Ar hyn o bryd mae hebrwng plant ar remánd i gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel yn cael ei wneud drwy drefniadau a wnaethpwyd ac a dalwyd amdanynt gan awdurdodau lleol unigol. O'r 3 Rhagfyr 2012 (dyddiad dros dro), bydd yr holl blant sydd ar remánd ac yn cael eu cludo i ac o gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel yn cael eu hebrwng dan gontract newydd a gedwir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

